

Oriel Ceri Richards, Canolfan y Celfyddydau Taliesin,, Prifysgol Abertawe, Abertawe, SA2  
8PZ Llun I Wener 10yb – 6yp, Sadwrn 10yb – 1yp, 1.30yp – 4yp

## 'Rarebit please!' gan Arthur Conka yn agor 13 Ionawr i 4 Chwefror 2017

Mae'n bleser gan y Cwmni Celf a Diwylliant Romani (RCAC) gyhoeddi arddangosfa newydd o waith gan yr artist Artur Conka. Yr arddangosfa gyffrous hon o waith a gomisiynwyd yw'r diweddaraf yn ein prosiect sy'n torri tir newydd, *Gypsy Maker* – menter sy'n cefnogi datblygiad gwaith arloesol gan artistiaid Sipsi, Roma a Theithwyr (GRT) newydd a sefydledig. Mae'r prosiect *Gypsy Maker* yn ehangu ar waith RCAC drwy barhau i gynnwys cymunedau GRT â'r cyhoedd mewn deialog parhaus ynghylch y ffyrdd y mae celf yn parhau i gyfeirio bywyd unigolion a chymunedau heddiw.



"Haluski Kapusta" cabbage dumplings © Artur Conka 2011

Graddiodd Artur Conka mewn Ffotograffiaeth o Brifysgol Derby. Ac yntau'n un o'r ychydig Roma sydd wedi dogfennu'i gymuned o'r tu ôl i'r lens, mae ffotograffiaeth a ffilmiau Conka yn canolbwyntio ar drafferthion Roma, Sipsiwn a Theithwyr yn Ewrop. Yn wreiddiol o un o'r cymunedau Romani tlotaf yn Slofacia, dychwelodd Conka flynyddoedd yn ddiweddarach i gofnodi sut roedd bywyd y trigolion wedi newid yn ystod ei dirywiad. Y canlyniad oedd ei ffilm ddogfen gyntaf, *Lunik IX*. Mae gwaith Conka wedi ymddangos mewn amrywiaeth o gyhoeddiadau rhyngwladol, gan gynnwys *The Huffington Post*, *The Independent* a chylchgrawn *Vice*, ac edrychwn ymlaen at gyflwyno'i ymagwedd wreiddiol ac arloesol tuag at ffilmiau a ffotograffiaeth yn yr arddangosfa newydd hon.

"Mae gweithio gyda'r Cwmni Celf a Diwylliant Romani wedi bod yn berthynas annwyl. Mae RCAC yn rhoi llwyfan lle nad yw'r mwyafrif yn gwneud hynny, yn enwedig i grwpiau Sipsiwn, Roma a Theithwyr. Mae ei ymagwedd ddiflino at sefydlu dealltwriaeth sy'n torri tir newydd ynghylch cymunedau GRT wedi helpu i newid bywydau pobl." Artur Conka

"Rwy'n hynod falch o gefnogi'r arddangosfa ddiweddaraf yn y prosiect *Gypsy Maker* sy'n torri tir newydd. Mae'r arddangosfa'n cynnig golwg y mae mawr ei hangen ar gymuned gamddealedig GRT ac mae'n caniatáu'r boblogaeth ehangach i fwynhau ei diwylliant a'i threftadaeth unigryw." Julie James AC

"Gan helpu i oresgyn yr anwybodaeth a'r rhagfarn sy'n parhau ynghylch cymunedau GRT, unwaith eto mae artistiaid ar flaen y gad yn chwalu ystrydebau ac yn taflu goleuni a dealltwriaeth ar broblem ddifrifol o hyd yn ein cymdeithas." – Sybil Crouch, Pennaeth Gwasanaethau Diwylliannol, Canolfan y Celfyddydau Taliesin

Mae'r Cwmni Celf a Diwylliant Romani yn eich gwahodd i weld y gwaith ac i gwrdd â'r artist yn agoriad yr arddangosfa newydd hon.

